**Uned 20 ii**

**Brechlyn Geneuol**

**Taflen Wybodaeth**

## Cyflwyniad

Mae sawl rhywogaeth o barasitiaid llyngyr yn byw yn y bibell gastroberfeddol a llwybr resbiradu gwartheg a defaid. Gwyddys bod un o'r rhain, *Dictyocaulus viviparous* (llyngyr yr ysgyfaint), yn achosi niwed o ran iechyd a niwed yn economaidd. Mae'n effeithio ar wartheg a defaid ar draws y byd.

## Beth yw symptomau haint llyngyr yr ysgyfaint mewn gwartheg?

- Cynnydd yng nghyfradd resbiradol - mae dwywaith y normal yn bosibl
- Pesychu - yn amlwg wrth eu herlid
- Colli cyflwr, a hynny'n gyflym
- Niwmonia angheuol yn gallu datblygu, yn cael ei nodweddu gan ddiffyg anadl
- Mae lloi sy'n cael ymosodiad llym yn dangos cryn flinder wrth geisio anadlu digon o ocsigen, gyda'r geg yn agor ac yn ewynnu, a'r tafod wedi ei ymestyn.

## Cylchred Bywyd Llyngyr yr Ysgyfaint

1. Gwartheg ifainc yn bwyta porfa wedi ei heintio
2. Larfau heintiol yn pasio i'r coluddyn bach
3. Larfau'n treiddio i wal y coluddyn a symud i'r ysgyfaint trwy'r pibellau gwaed
4. Larfau'n datblygu'n oedolion yng ngwagleoedd aer mwyaf yn yr ysgyfaint, ac maen nhw'n barod i ddechrau bridio 28 diwrnod ar ôl cael eu llyncu
5. Mae wyau *Dictyocaulus spp* yn deor yn yr ysgyfaint
6. Yn yr ysgyfaint mae'r larfau'n datblygu'n oedolion yn y pibellau aer. Mae'r llid a achosir gan y llyngyr, sydd oddeutu 7.5 cm o hyd, yn ysgogi'r ysgyfaint i gynhyrchu meintiau mawr o fwcws. Mae'r mwcws hwn yn ewynnu ac yn blocio'r pibellau aer wrth i'r llo ymdrechu i orfodi aer i mewn i'r ysgyfaint
7. Gall miloedd o larfau microsgopig gael eu pesychu i fyny a'u llyncu gan yr anifail
8. Mae larfau anaeddfed yn symud trwy'r perfeddyn ac yn dod allan yn y carthion i'r tir pori, lle maen nhw'n datblygu trwy ddau gyfnod larfaol mewn rhai dyddiau
9. Gall larfau'r cam olaf, sy'n awr yn heintiol, ymlusgo i fyny'r tir pori yn barod i'w bwyta
10. Mae gwartheg ifainc yn bwyta'r borfa halogedig.

## Beth yw'r strategaethau atal sydd ar gael i'r ffermwr?

- Brechiad
- Polisi Tir Pori Glân

### 1. Brechiad

- Dyma'r dull rheoli gorau, mwyaf effeithiol

- Mae'r brechlyn yn frechlyn byw, wedi ei gynhyrchu o larfau arbelydredig
- Dylid cwblhau'r brechu o leiaf 2 wythnos cyn eu troi allan i bori (lloi ifainc)
- Mae brechlyn yn rhoi imiwnedd da iawn.

**2. Polisi Tir Pori Glân**

Golyga hyn sicrhau nad yw'r holl anifeiliaid ifainc sydd heb imiwnedd yn dod i gyswllt â larfau ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, unwaith mae imiwnedd ganddynt, mae'r sialens gan y parasitiaid yn y tir pori'n help i gynnal yr imiwnedd.